**LC704**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2003**

Mae'r rhain yn diwygio'r Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd 1995 mewn perthynas â'r materion ym mharagraff 1(a) - (c) o'r nodyn esboniadol.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Mae un gwall drafftio bach sydd wedi cael ei gydnabod ar ran y Gweinidog perthnasol, a gwahoddir y Cynulliad i dalu sylw arbennig iddo.

Mae Rheoliad 3(1) yn gwneud darpariaeth fel bod "rheoliad 4" o'r Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2002 yn peidio â bod mewn grym. Ond, mewn gwirionedd, rheoliad 3 o'r rheoliadau hynny sydd i beidio â bod mewn grym.

Byddai modd cywiro hyn drwy gyfrwng memorandwm cywiriadau.

Glyn Davies AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

17 Mehefin 2003